# PWYLLGOR ARCHWILIO PERFFORMIAD

Cofnodion cyfarfod o’r Pwyllgor Archwilio Perfformiad a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Ty Russell, Y Rhyl, Dydd Iau, 11 Mehefin 2015 am 9.30 am.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Meirick Davies, Richard Davies, Huw Hilditch-Roberts, Peter Owen, Arwel Roberts a Gareth Sandilands

Aelodau Cyfetholedig – J Piper a G Williams

Aelod Arweiniol Addysg – y Cynghorydd Eryl Williams a’r Aelod Arweiniol Gwasanaethau Cymdeithasol – y Cynghorydd Bobby Feeley (ar gyfer eitem 6).

## HEFYD YN BRESENNOL

Prif Weithredwr (MM), Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol (NS), Pennaeth Addysg (KE), Rheolwr Tîm Cynllunio Strategol (LG) Rheolwr Rhaglen, Moderneiddio Addysg (JC), Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd (SP), Cydlynydd Archwilio (RE) a Gweinyddwr Pwyllgorau (SLW)

Croesawodd y Cadeirydd bawb i’r cyfarfod, yn enwedig yr aelod cyfetholedig newydd, John Piper, a’r Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts yr aelod newydd o’r Pwyllgor Archwilio Perfformiad.

## 1 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwr(wyr) Gill Greenland, Debra Houghton, Colin Hughes, Geraint Lloyd-Williams, Dr. D. Marjoram a/ac Dewi Owens

## 2 DATGAN CYSYLLTIAD

Roedd y Cynghorwyr Meirick Lloyd Davies, Arwel Roberts, Huw Hilditch-Roberts a David Simmons yn datgan cysylltiad personol yn yr eitemau galw i mewn.
Roedd yr Aelodau Cyfetholedig John Piper a Gareth Williams yn datgan cysylltiad personol yn yr eitemau galw i mewn.

## 3 ETHOL IS-GADEIRYDD

Cytunodd Aelodau'r Pwyllgor i ohirio ethol Is-Gadeirydd nes cyfarfod y Pwyllgor Archwilio Perfformiad Arbennig a gynhelir ar 22 Mehefin 2015.

***PENDERFYNWYD*** *bod ethol Is-Gadeirydd yn cael ei ohirio tan 22 Mehefin 2015.*

## 4 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Dywedodd y Cadeirydd bod penderfyniadau a wnaed gan y Cabinet yn ei gyfarfod ar 2 Mehefin 2015 i gymeradwyo cyhoeddi hysbysiad statudol i gau Ysgol Llanfair Dyffryn Clwyd (Llanfair DC) ac Ysgol Pentrecelyn wedi'i alw i mewn ar gyfer adolygiad. Hefyd roedd y penderfyniad i gymeradwyo cyhoeddi hysbysiad statudol i gau Ysgol Rhewl wedi'i alw i mewn ar gyfer adolygiad. O ganlyniad, er mwyn cydymffurfio â Rheolau Gweithdrefn Galw i Mewn y Cyngor, a oedd yn nodi bod pwyllgor archwilio i ystyried galw i mewn penderfyniad o fewn pum niwrnod gwaith, roedd wedi cytuno i ystyried y materion fel eitem o fusnes brys yn rhaglen y cyfarfod cyfredol. Roedd pob aelod o’r Pwyllgor, gan gynnwys aelodau cyfetholedig wedi derbyn copïau o'r adroddiadau a'r atodiadau oedd wedi eu hystyried gan y Cabinet yn ei gyfarfod ar 2 Mehefin 2015.

Gan fod penderfyniad y Cabinet ar 2 Mehefin 2015 yn ymwneud â darpariaeth addysg y Cyngor, caniatawyd i Aelodau cyfetholedig addysg statudol yr Awdurdod ar y pwyllgor archwilio i gyfrannu’n llawn wrth ystyried y penderfyniadau oedd wedi eu galw i mewn fel aelodau pleidleisio llawn o'r Pwyllgor.

**Galw i mewn y penderfyniad i gyhoeddi hysbysiadau statudol ar gyfer y cynnig i gau Ysgol Llanfair DC ac Ysgol Pentrecelyn.**

Cymeradwyodd Cabinet Sir Ddinbych yn ei gyfarfod ar 2 Mehefin 2015 yr argymhelliad canlynol:

*“(a) nodi canfyddiadau'r ymgynghoriad ffurfiol ar gyfer cau Ysgol Llanfair DC ac Ysgol Pentrecelyn ac agor ysgol ardal newydd ar y ddau safle presennol;*
*(b) cymeradwyo cyhoeddi hysbysiad statudol i Gyngor Sir Ddinbych gau Ysgol Llanfair DC ac Ysgol Pentrecelyn ar 31 Awst 2016; ac i’r Eglwys yng Nghymru sefydlu Ysgol Ardal Wirfoddol a Reolir newydd ar y safleoedd presennol o 1 Medi 2016, a*
*(c) nodi’r opsiwn i rieni wneud cais i anfon eu plant i Ysgol Pen Barras fel ysgol arall pe baent yn dymuno i’w plant aros o fewn ysgol Categori 1.”*

Cyhoeddwyd y penderfyniad uchod ar wefan y Cyngor ar 3 Mehefin 2015, ac yn unol â Rheolau Gweithdrefn Galw i Mewn y Cyngor, nid oedd y penderfyniad wedi cael ei weithredu ar unwaith fel bod aelodau nad oedd yn aelodau o’r Cabinet yn gallu galw’r penderfyniad i mewn i’w archwilio, os oeddent o'r farn bod angen ei archwilio.

Derbyniwyd ffurflen "Hysbysiad galw i mewn", a lofnodwyd gan y nifer gofynnol o Gynghorwyr nad oeddent yn aelodau o’r Cabinet, ar 5 Mehefin 2015.

Y rhesymau dros y penderfyniad i alw i mewn oedd:

(i) Diffyg esboniad ynglŷn â beth oedd Categori 1 a 2 yn ei olygu;
(ii) A ddilynwyd y canllawiau ar gyfer cau ysgolion gwledig?
(iii) A roddwyd y data cywir ynghylch yr ysgolion – niferoedd data disgyblion?; a
(iv) Ni ddilynwyd y broses yn gywir yn erbyn blaenoriaethau lleol a chenedlaethol.

Gofynnwyd i Aelodau’r Pwyllgor Archwilio Perfformiad benderfynu, yn seiliedig ar y wybodaeth a gyflwynwyd iddynt, os oedd y Pwyllgor yn credu y dylai'r Cabinet adolygu ei benderfyniad gwreiddiol, ac os felly ar ba sail.

Cyflwynodd y Cynghorydd Arwel Roberts y cais i alw i mewn a dechreuodd y drafodaeth drwy amlinellu’r pedwar pwynt a oedd yn sail ar gyfer y galw i mewn.

Ymatebodd yr Aelod Arweiniol ar gyfer Addysg a swyddogion oedd yn bresennol i'r pwyntiau a godwyd ac i gwestiynau Aelodau’r Pwyllgor fel a ganlyn:

(i) Roedd y Cyngor yn categoreiddio ei ddarpariaeth addysg yn unol â Dogfen Wybodaeth Rhif 023/2007 Llywodraeth Cynulliad Cymru, a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2007. Roedd disgwyl i bob Cyngor yng Nghymru i gadw at y canllawiau wrth gategoreiddio eu darpariaeth addysg.

    Roedd ysgolion cynradd Categori 1 yn ysgolion cyfrwng Cymraeg. Roedd y cwricwlwm yn cael ei gyflwyno trwy gyfrwng y Gymraeg, a’r asesiadau a’r iaith gyfathrebu o ddydd i ddydd gyda’r disgyblion. Disgwylid y byddai'r disgyblion yn trosglwyddo’n rhwydd i ddarpariaeth uwchradd cyfrwng Cymraeg ar ddiwedd y cyfnod allweddol (CA) 2. Byddai disgyblion hefyd wedi cyrraedd safon gyfatebol yn Saesneg i ddisgyblion mewn ysgolion cyfrwng Saesneg yn bennaf.

    Roedd ysgolion cynradd Categori 2 yn ysgolion cynradd dwy ffrwd. Roedd yr ysgolion yn darparu darpariaeth cyfrwng Cymraeg a Saesneg ochr yn ochr. Yn dibynnu ar ddewis y rhieni, roedd y cwricwlwm yn cael ei gyflwyno drwy naill ai gyfrwng y Gymraeg neu’r Saesneg. Y disgwyliad ar gyfer ysgolion Categori 2 oedd y byddai disgyblion yn y ffrwd Gymraeg yn gallu trosglwyddo i ddarpariaeth uwchradd cyfrwng Cymraeg, yr un peth ag ysgolion Categori 1. Byddai’r ffrwd Saesneg yn gallu trosglwyddo i ddarpariaeth uwchradd cyfrwng Saesneg yr un fath â disgyblion o ysgol gynradd Categori 5.

    Darllenodd yr Aelod Arweiniol dros Addysg, y Cynghorydd Eryl Williams ddyfyniad o'r cofnodion drafft o gyfarfod y Cabinet, a gynhaliwyd ar 2 Mehefin, i ddangos y rhoddwyd esboniad llawn a chynhwysfawr ar y categori darpariaeth addysg gynradd.

    Roedd y derminoleg categoreiddio mewn ysgolion cynradd ac uwchradd yn wahanol ac roedd gan hyn y potensial i achosi dryswch. Roedd Categori 2 yn y sector cynradd yn ysgolion dwy ffrwd, tra bod Categori 2 yn y sector uwchradd yn ysgolion dwyieithog.

    Roedd Llywodraeth Cymru (LlC) yn awyddus i Gymru fod yn wlad ddwyieithog yn y tymor hir, felly, disgwylir i bob ysgol ddarparu elfen o addysg Gymraeg. Roedd pob Cyngor yn gorfod cael Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg.

Roedd Cyngor Sir Ddinbych wedi ymrwymo i wella hyfedredd disgyblion ysgol yn y Gymraeg a'r Saesneg. Roedd gan Grŵp Strategol Cymraeg mewn Addysg y Cyngor oedd yn monitro gweithrediad y cynllun hefyd rôl wrth sicrhau bod pob ysgol yn symud ar hyd y continwwm iaith i ddarparu rhagor o elfennau o'r cwricwlwm drwy gyfrwng y Gymraeg.

(ii) Y Cod a ddilynir ar gyfer ad-drefnu darpariaeth addysg oedd Cod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru, Rhif Cod Statudol 0006/2013, cyhoeddwyd Gorffennaf 2013. Dilynwyd y Cod hwn yn achos Ysgol Llanfair DC ac Ysgol Pentrecelyn.

Roedd y Cod yn mynnu y cynhelir asesiad effaith cymunedol (AEC) o ran unrhyw gynigion i gau. Roedd AEC wedi'i gynnal o ran y cynnig ar gyfer Ysgol Llanfair DC ac Ysgol Pentrecelyn.

Roedd y cynigion oedd yn ymwneud â'r ddwy ysgol yn rhan o'r adolygiad ehangach o ddarpariaeth addysg gynradd yn ardal Rhuthun. Nodwyd y cynnig a gyflwynwyd fel yr ateb gorau ar gyfer darparu addysg yn ardaloedd Llanfair DC a Phentrecelyn gan ei fod yn darparu ysgol gymunedol a fyddai'n darparu addysg i ddisgyblion yn newis iaith eu rhieni. Byddai hefyd yn darparu cyfleuster ysgol newydd i'r ardal maes o law.

Oherwydd bod gan Ysgol Llanfair DC ffrwd cyfrwng Cymraeg, roedd hyn yn cyflawni'r cwricwlwm yr un fath ag ysgol Categori 1. Barnwyd bod dynodi'r ysgol newydd fel ysgol Categori 2 yn cael ei ystyried yn briodol gan y byddai'n diwallu'r cynnig a ddarperir ar hyn o bryd gan Ysgol Pentrecelyn ac Ysgol Llanfair DC. Roedd y cynnig addysgol, felly, yn diwallu anghenion y ddwy set o ddisgyblion i safon gyfatebol – sef yr hyn oedd y Cod ei angen.

(iii) Y data a ddarparwyd fel rhan o'r ymgynghoriad ar y cynigion ar gyfer ysgol ardal newydd oedd Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (Ebrill 2014) Llywodraeth Cymru. Hon oedd y ffynhonnell ddata cydnabyddedig a ddefnyddir ar gyfer prosiectau ad-drefnu ysgolion, a defnyddiwyd fel sail ar gyfer yr Adolygiad o Ardal Rhuthun cyfan.

Nid oedd yr union niferoedd sy'n trosglwyddo o Ysgol Pentrecelyn i'r ysgol ardal newydd yn hysbys eto, byddai hyn yn gliriach unwaith y cyhoeddwyd hysbysiadau statudol. Fodd bynnag, pe bai rhieni yn dewis anfon eu plant i ysgol Categori 1 yn lle'r ysgol ardal newydd, byddai cludiant o'r cartref i'r ysgol am ddim ond ar gael i'r ysgol addas agosaf.

Byddai 10% o leoedd gwag wrth gefn yn cael ei gynnwys yn y fanyleb cynllunio ar gyfer cyfleuster newydd i Ysgol Pen Barras yn Rhuthun gyda'r bwriad o ddarparu ar gyfer pwysau yn y dyfodol.

Byddai amrywiadau yn y boblogaeth yn cael effaith ar holl ddarpariaeth ysgol yn y dyfodol. Oherwydd natur ansicr sy'n gysylltiedig â'r agwedd hon, ni ellid ei ystyried fel rhan o unrhyw ffigurau rhagamcanol.

Adolygwyd y data y seiliwyd y cynigion arno gan swyddog annibynnol yn ddiweddar, sydd wedi cadarnhau ei ddilysrwydd.

(iv) Roedd y broses a ddilynwyd, o ran y cynigion, yn cydymffurfio â Chod Trefniadaeth Ysgolion (Gorffennaf 2013) Llywodraeth Cymru a'r canllawiau ar ddiffinio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg (Hydref 2007).

Nod yr adolygiad o ardal Rhuthun, yr oedd y cynnig hwn yn elfen ohono, oedd i gyfrannu tuag at gyflawni blaenoriaeth gorfforaethol y Cyngor o "wella perfformiad mewn addysg ac ansawdd adeiladau ysgol".

Codwyd y pwyntiau ychwanegol canlynol:

- Cadarnhawyd o fewn Sir Ddinbych roedd Categori 1, Categori 2 a chategorïau eraill o ysgolion cynradd dan reolaeth wirfoddol;
- Roedd y mwyafrif o'r gwrthwynebiadau i gynigion Ysgol Llanfair DC ac Ysgol Pentrecelyn ar sail categoreiddio iaith. Ychydig iawn o wrthwynebiadau a dderbyniwyd o ran ei statws dan reolaeth wirfoddol arfaethedig;
- Roedd y Pwyllgor wedi gofyn i swyddogion wneud ymholiadau i weld a ellid categoreiddio ysgolion yn debyg i fodel Cyngor Gwynedd o ysgolion "dwyieithog" yn hytrach na chategoreiddio darpariaeth cyfrwng Cymraeg a ddefnyddir ar hyn o bryd a oedd fel petai'n achosi dryswch;
- Amcan y polisi cenedlaethol a chynllun gweithredu "Iaith Pawb" Llywodraeth Cymru oedd i gynnal a chynyddu nifer y bobl yn y wlad a allai siarad Cymraeg. Roedd CSCA a pholisi addysg y Cyngor yn cydymffurfio â gweledigaeth Llywodraeth Cymru.

Ar y pwynt hwn, rhoddodd y Cadeirydd gyfle i gynrychiolwyr o Ysgol Llanfair DC ac Ysgol Pentrecelyn i annerch y cyfarfod. Codwyd y pwyntiau canlynol:

(i) Roedd Geraint Lewis Jones, Cadeirydd y Llywodraethwyr, Ysgol Llanfair DC wedi annerch y Pwyllgor fel a ganlyn:
   a. Nid oedd rhieni'r ysgol wedi cymysgu rhwng y diffiniadau Categori 1 a Chategori 2.
   b. Nid oedd categoreiddio wedi bod yn ffenomenon diweddar. Cysylltwyd â'r Corff Llywodraethu ar sawl achlysur â chais i newid y categorïau o 2 i 1, ond gwrthodwyd hyn bob tro gan y teimlwyd y byddai'r ysgol yn colli disgyblion.
   c. Roedd gan yr ysgol bolisi recriwtio staff sy'n siarad Cymraeg. Cymraeg oedd iaith gymdeithasol yr ysgol ac roedd yr athrawon yn cyfathrebu gyda'r plant yn Gymraeg.
   d. Nod yr ysgol oedd sicrhau bod ganddynt y nifer uchaf posibl o siaradwyr Cymraeg yn 11 oed. O ganlyniad, roedd model Categori 2 yn gweithio'n dda ar gyfer Ysgol Llanfair DC.

(ii) Anerchodd Menna Jones y Pwyllgor ar ran Ysgol Pentrecelyn fel a ganlyn:
   a. Mynegwyd pryderon o ran colli ysgol wledig Categori 1.

b. Roedd pryderon wedi'u codi hefyd o ran adolygiad o'r ffrwd "N" (ystyrir yn addas ar gyfer disgyblion a oedd wedi dysgu Cymraeg fel ail iaith ac sydd, erbyn diwedd CA2, â dealltwriaeth dda o'r iaith) yn Ysgol Brynhyfryd o fis Medi 2015, ac effaith hyn ar ysgolion sy'n ei bwydo.

Wrth grynhoi cais y llofnodwyr i alw i mewn y penderfyniad gwreiddiol gan y Cabinet, roedd y Cynghorydd Arwel Roberts yn nodi ei siom, o dan gynigion ad-drefnu ysgolion, y barnwyd darpariaeth Categori 2 i fod yn gydradd â darpariaeth Categori 1. Roedd o'r farn y dylid ei adolygu gan Lywodraeth Cymru.

Ar ddiwedd y drafodaeth, daeth y Pwyllgor i'r casgliad, ar ôl cael sicrwydd y byddai'r effaith ar ddisgyblion sy'n dewis gadael y naill ysgol neu'r llall yn cael ei fonitro'n agos ac effaith cau Ysgol Pentrecelyn ar y ddwy ysgol Categori 1 arall yn yr ardal yn hylaw, drwy fwyafrif nad oedd y mater yn teilyngu cael ei gyfeirio yn ôl i'r Cabinet i'w ailystyried. Fodd bynnag, gofynnodd y Pwyllgor i swyddogion edrych ar y posibilrwydd i'r Cyngor ddynodi ysgolion yn ysgolion "dwyieithog" yn hytrach na chael ei gyfyngu gan ganllawiau Llywodraeth Cymru ar gategoreiddio yn ôl darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Roedd y Pwyllgor yn:

***PENDERFYNU*** *– ar ôl ystyried y rhesymau a roddwyd dros ofyn am adolygiad o benderfyniad y Cabinet, a'r wybodaeth a ddarparwyd yn y cyfarfod, nad oedd digon o dystiolaeth i ofyn i'r Cabinet ailystyried ei benderfyniad ar 2 Mehefin 2015 o ran Ysgol Llanfair Dyffryn Clwyd ac Ysgol Pentrecelyn.*

**<u>Galw i mewn y penderfyniad i gyhoeddi'r hysbysiad statudol ar gyfer y cynnig i gau Ysgol Rhewl.</u>**

Roedd Cabinet Sir Ddinbych yn ei gyfarfod ar 2 Mehefin 2015 wedi cymeradwyo'r argymhelliad canlynol:

*"(a) nodi canfyddiadau'r ymgynghoriad ffurfiol i gau Ysgol Rhewl, a*
*(b) chymeradwyo cyhoeddi hysbysiad statudol i gau Ysgol Rhewl ar 31 Awst 2017 gyda disgyblion yn trosglwyddo i Ysgol Pen Barras neu Ysgol Stryd y Rhos i gyd-fynd ag agor adeiladau'r ysgol newydd."*

Cyhoeddwyd y penderfyniad uchod ar wefan y Cyngor ar 3 Mehefin 2015, ac yn unol â Gweithdrefn Galw i Mewn y Cyngor, nid oedd y penderfyniad wedi cael ei weithredu ar unwaith fel bod aelodau sydd ddim yn aelodau o'r Cabinet yn gallu galw'r penderfyniad i mewn i'w archwilio, os oeddent o'r farn bod angen ei archwilio.

Derbyniwyd ffurflen "Hysbysiad galw i mewn", a lofnodwyd gan y nifer gofynnol o Gynghorwyr heb fod yn aelodau o'r Cabinet ar 8 Mehefin 2015.

Roedd y rhesymau dros y penderfyniad galw i mewn fel a ganlyn:

(i) Bod yr effaith ar yr iaith Gymraeg yn yr ysgol yn ogystal ag yn y sir, a godwyd yn yr ymgynghoriad, heb dderbyn sylw gan y Cabinet;

(ii) Colli darpariaeth ddwyieithog yn Rhewl yn gwrthdaro â Chynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg y Cyngor ei hun;
(iii) Gallu safle Glasdir i ddarparu ar gyfer pob disgybl yn amodol ar adolygiad o ardal Rhuthun, a diogelwch ar y ffyrdd a materion rheoli traffig; a
(iv) Nad oedd y broses ymgynghori yn cynnwys y cynnig ar gyfer trefniadau amgen a thrafodaeth ar gynigion o'r fath, ni chymerodd le ac ni ymatebodd y Cabinet i hyn yn eu cyfarfod ar
2 Mehefin 2015.

Cyflwynodd y Cynghorydd Merfyn Parry y cais galw i mewn a dechreuodd y drafodaeth gan amlinellu'r pwyntiau uchod fel y sail ar gyfer y galw i mewn.

Roedd y Cynghorydd Parry yn ymhelaethu ar y pwyntiau fel a ganlyn:

- Teimlai rhieni disgyblion yn Ysgol Rhewl bod eu dewis o ysgol yn cael ei beryglu. Yr unig ysgol dwy ffrwd ar gael iddynt fyddai Ysgol Llanfair DC, ond ni fyddai cludiant am ddim ar gael i'r ysgol hon. Roedd wedi'i gydnabod yn y blynyddoedd diwethaf, nad oedd Ysgol Rhewl wedi bod yn cyflawni'r ddarpariaeth addysg yn unol â dynodiad Categori 2. Fodd bynnag, roedd hyn wedi derbyn sylw gyda dau ddisgybl yn disgwyl cael eu hasesu drwy gyfrwng y Gymraeg eleni.
- Pwysleisiwyd pryderon rhieni dros ddiogelwch y plant oherwydd bod disgyblion o Rewl yn gorfod cerdded i'r ysgolion newydd ar safle Glasdir ar hyd ffordd brysur iawn, gyda nifer o unedau diwydiannol a'r farchnad da byw ar hyd un ochr, a safle arall ar y llwybr eisoes wedi'i glustnodi ar gyfer datblygu diwydiannol. Er gwaethaf natur ddiwydiannol y llwybr hwn fe'i ystyriwyd fel llwybr 'nad yw'n beryglus' ar hyn o bryd.
- Roedd y Cynghorydd Parry yn gofyn i'r Pwyllgor Archwilio argymell i'r Cabinet bod y penderfyniad i gyhoeddi hysbysiad statudol i gau'r ysgol ar 31 Awst 2017 yn cael ei roi o'r neilltu hyd nes ceir eglurhad pellach ar gapasiti safle Glasdir i ddarparu ar gyfer pob un o'r disgyblion yr effeithiwyd arnynt gan adolygiad ardal Rhuthun, diogelwch ar y ffyrdd a materion rheoli traffig a rhoi digon o amser i Ysgol Rhewl ddarparu yn ôl y disgwyl yn erbyn ei ddynodiad Categori 2.

Ymatebodd yr Aelod Arweiniol dros Addysg a swyddogion oedd yn bresennol i'r pwyntiau a godwyd ac i gwestiynau Aelodau'r Pwyllgor fel a ganlyn:

(i) Roedd y dalgylch cyfredol ar gyfer yr ysgol wedi'i ddangos mewn map a gyflwynwyd i'r Cabinet ar 2 Mehefin. Roedd y map yn dangos bod nifer o ddisgyblion yn yr ysgol yn teithio o rannau gogleddol a deheuol y sir. Os bydd yr ysgol yn cau, roedd yn debygol na fyddai nifer o'r disgyblion yn trosglwyddo i ddarpariaeth Gymraeg neu Saesneg ar safle Glasdir gan na fyddai'n cael ei ystyried fel yr ysgol addas agosaf.

    O ran cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn holl ysgolion y sir a'u cefnogi ar hyd y continwwm iaith, hysbyswyd yr Aelodau bod y Grŵp Strategol Cymraeg mewn Addysg ar hyn o bryd yn gyfrifol am yr agwedd hon o'r gwaith.

(ii) Pwysleisiwyd nad oedd unrhyw bryderon ynglŷn ag ansawdd y ddarpariaeth addysg yn Ysgol Rhewl. Fodd bynnag, bu pryderon nad oedd y cwricwlwm yn cael ei ddarparu yn unol â dynodiad Categori 2 yr ysgol. Roedd hyn yn derbyn sylw ar hyn o bryd.

Cadarnhawyd bod materion sy’n ymwneud â chategoreiddio iaith Ysgol Rhewl wedi codi mewn cyfarfod Pwyllgor Archwilio Cymunedau ym mis Mawrth 2015, yn ystod y drafodaeth ar adroddiad ar "gategoreiddio iaith yn holl ysgolion Sir Ddinbych". O ganlyniad, roedd y Grŵp Strategol Cymraeg mewn Addysg yn cefnogi’r ysgol ac yn monitro ei chynnydd.

Tra'n cydnabod nad oedd y cynnig a gyflwynir ar gyfer Ysgol Rhewl yn darparu cynnig 'tebyg am debyg' i’r disgyblion na’r rhieni, roedd yn unol â gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru (Gorffennaf 2013) fel dewis amgen "dylai cynigion sicrhau bod cydbwysedd y ddarpariaeth ysgol yn adlewyrchu cydbwysedd y galw" ac yn darparu "o leiaf safonau a chyfleoedd cyfwerth i wneud cynnydd yn eu cyfrwng iaith presennol". Felly, roedd y Cyngor o'r farn bod y cynigion oedd wedi cael eu cyflwyno ar gyfer Ysgol Rhewl yn adlewyrchu cydbwysedd y galw presennol yn Rhewl.

(iii) Byddai cynnydd yn y traffig ysgol i'r ysgolion newydd arfaethedig ar safle Glasdir yn sbarduno asesiad diogelwch ffyrdd yn awtomatig. Byddai hyn hefyd yn ffurfio rhan o'r broses ceisiadau cynllunio cyn cael caniatâd cynllunio.

Roedd y Gwasanaeth Priffyrdd wedi cofrestru rhai pryderon cychwynnol ar faint a diogelwch traffig ar gyfer y safle newydd arfaethedig ac roedd ymgynghorydd wedi'i benodi i gynnal astudiaeth ddichonoldeb fel rhan o lunio'r cais cynllunio.

(iv) Ystyriwyd y cynigion amgen a gyflwynwyd fel rhan o'r broses ymgynghori ac roedd ymateb y Cyngor iddynt wedi'i amlinellu o fewn atodiad Adroddiad yr Ymgynghoriad i'r Cabinet ar 2 Mehefin 2015.

Byddai’r ysgolion newydd i gael eu hadeiladu ar safle Glasdir yn cael eu cynllunio i ddarparu capasiti 10% ychwanegol at nifer gwirioneddol y disgyblion. Byddai hyn yn cydymffurfio â chanllawiau BB99 ar adeiladau ysgol a meysydd chwarae gyda golwg ar ddiogelu anghenion yn y dyfodol.

Byddai gan yr ysgolion newydd un dosbarth derbyniad ac un a hanner. Byddai’r amddiffyniad hwn, ar y cyd â gweddill yr adolygiad o ardal Rhuthun, yn ddigonol i leihau nifer y lleoedd gwag mewn ysgolion o fewn ysgolion penodol i lefel hylaw, tra'n sicrhau ar yr un pryd y byddai cynnig addysgol o ddewis ar gael i'r holl blant yn yr ardal o fewn pellter teithio rhesymol o'u cartref. Byddai Polisi Derbyn Ysgolion y Cyngor yn helpu i reoli argaeledd a hygyrchedd lleoedd mewn ysgolion ar draws y sir.

Ar y pwynt hwn, rhoddodd y Cadeirydd gyfle i Gadeirydd y Llywodraethwyr, Ysgol Rhewl annerch y cyfarfod. Codwyd y pwyntiau canlynol:

- Roedd Estyn wedi graddio Ysgol Rhewl yn "dda". Roedd y ddarpariaeth Gymraeg yn yr ysgol wedi symud ymlaen ac roedd y cynlluniau ar gyfer datblygu pellach yn y maes hwn ar gael i bawb eu gweld.
- Roedd y Corff Llywodraethu yn teimlo y byddai cau'r ysgol yn cyfateb i golli cyfle i symud y Gymraeg ymlaen yn Sir Ddinbych. Roedd hyn yn peri pryder yn arbennig o gofio casgliadau astudiaeth ddiweddar a gomisiynwyd gan y Cyngor ar ddyfodol yr iaith o fewn y sir.
- Roedd Ysgol Rhewl wedi gweithio'n agos gydag Ysgol Brynhyfryd i fodloni eu gofynion ar gyfer darparu addysg ddwyieithog a chefnogi disgyblion i gael mynediad i addysg uwchradd yn yr iaith o'u dewis.
- Roedd gan rieni disgyblion yn Ysgol Rhewl bryderon difrifol o ran maint y traffig sy'n defnyddio'r ffordd rhwng Rhewl a Rhuthun.

Wrth grynhoi cais y llofnodwyr i alw penderfyniad gwreiddiol y Cabinet i mewn, dywedodd Cadeirydd y Llywodraethwyr a'r prif lofnodwr i'r cais galw i mewn, y Cynghorydd Merfyn Parry, y teimlent fod y penderfyniad i gau Ysgol Rhewl yn gynamserol a byddai colli ysgol gynradd dwy ffrwd yn niweidiol i'r ardal leol, ac i'r sir gyfan. Cynlluniwyd i adeiladu 23 o gartrefi teuluol fforddiadwy newydd yn Rhewl ac nid oedd effeithiau posibl y cynnydd hwn yn y boblogaeth, ym marn preswylwyr wedi'i ystyried yn llawn fel rhan o'r ymarfer ymgynghori.

Cadarnhaodd swyddogion os byddai'r penderfyniad i gau Ysgol Rhewl yn cael ei ohirio, roedd yna botensial y byddai'n arafu cynigion eraill nad oedd ar waith eto fel rhan o'r adolygiad o ardal Rhuthun, gan fod pob rhan o'r adolygiad yn ddibynnol ar elfennau eraill yn cael eu cyflawni.

Cynigiodd swyddogion i ddarparu sesiwn ar lwybrau diogel i ysgolion i bob budd-ddeiliad, gan gynnwys plant a rhieni i leddfu unrhyw ofnau a allai fod ganddynt.

Ar ddiwedd y drafodaeth, roedd y Pwyllgor yn cydnabod bod yna heriau i aelodau a swyddogion y Cyngor i sicrhau bod y ddarpariaeth addysg newydd yn cyflawni'r canlyniadau disgwyliedig wrth benderfynu peidio â gofyn i'r Cabinet adolygu ei benderfyniad i gau Ysgol Rhewl. Byddai angen i'r Cyngor gymryd pob cam angenrheidiol i liniaru yn erbyn y risg o golli sgiliau iaith Gymraeg ac i sicrhau nad oedd disgyblion o Ysgol Rhewl a'r ardal yn gyffredinol mewn unrhyw ffordd dan anfantais oherwydd na fyddai yna ysgol Categori 2 ar gael yn y dyfodol. Bod y Pwyllgor yn:

***PENDERFYNWYD -*** *ar ôl ystyried y rhesymau a roddwyd dros ofyn am adolygiad o benderfyniad y Cabinet a'r wybodaeth a ddarparwyd yn y cyfarfod, penderfynwyd nad oedd digon o dystiolaeth i ofyn i'r Cabinet ystyried ei benderfyniad ar 2 Mehefin i gyhoeddi hysbysiad statudol i gau Ysgol Rhewl, ond i argymell i'r Cabinet:*

*(a) Dylai gyfarwyddo'r swyddogion yn ystod y cyfnod ymgynghori ar ôl cyhoeddi hysbysiadau statudol i ymgymryd â gwaith i asesu a lliniaru effeithiau colli darpariaeth iaith Gymraeg ar y gymuned ac i sicrhau na fyddai colli ysgol dwy ffrwd yn anfanteisio disgyblion yr ardal yn y dyfodol;*

(b) *Gwneud gwaith pellach gyda disgyblion, rhieni, staff a budd-ddeiliaid eraill o Ysgol Rhewl i ymdrin â'u pryderon sy'n ymwneud â chapasiti safle Glasdir, rheoli trafnidiaeth ar safle'r ysgol newydd a phryderon diogelwch ffordd rhwng Rhewl a Glasdir; a*

(c) *Yr adroddir ar ganfyddiadau'r gwaith a nodir yn (a) a (b) uchod i'r Cabinet yn yr hydref 2015 pan gyflwynir yr adroddiad gwrthwynebiadau mewn ymateb i gyhoeddi'r hysbysiad statudol.*

Yn ystod y drafodaeth ar y galw i mewn roedd cais wedi'i wneud am arweiniad ar pe byddai aelod o'r Cabinet a oedd yn rhan o'r corff gwneud penderfyniadau yn cael eu hesgusodi gan y Pwyllgor Safonau o fod â chysylltiad sy'n rhagfarnu os oedd ef/hi yn aelod ward ar gyfer yr ardal yr effeithir arni gan y penderfyniad i ganiatáu iddynt fynychu cyfarfod galw i mewn.  Gofynnodd aelodau a fyddai modd rhoi caniatâd cyffredinol ar gyfer materion o'r fath neu a fyddai angen i bob unigolyn wneud cais o'r fath ar sail fesul pwnc.  Cytunodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd i godi'r mater gyda'r Swyddog Monitro.

**Ar y pwynt hwn (1.25pm) cafwyd egwyl o 10 munud.**

**Ailddechreuodd y cyfarfod am 1.35pm.**

## 5 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Archwilio Perfformiad a gynhaliwyd ar 16 Ebrill 2015.

***PENDERFYNWYD –*** *y dylid derbyn a chymeradwyo'r Cofnodion fel cofnod cywir.*

## 6 ADRODDIAD BLYNYDDOL Y CYFARWYDDWR GWASANAETHAU CYMDEITHASOL 2014/15

Cyflwynodd yr Aelod Arweiniol ar gyfer Gofal Cymdeithasol, Oedolion a Gwasanaethau Plant, y Cynghorydd Bobby Feeley, Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol (eisoes wedi'i ddosbarthu).

Dywedodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol er bod gwasanaethau gofal cymdeithasol y Sir yn gwella roedd yna bob amser le i wella ymhellach. Ymhlith yr heriau sydd o'n blaen oedd Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, a fyddai'n dod i rym yn llawn yn Ebrill 2016.

Mewn ymateb i gwestiynau aelodau, dywedodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol:

- Bod yr heriau ar gyfer y flwyddyn i ddod wedi eu manylu o fewn yr adroddiad.

- Amlinellodd ymrwymiad y Gwasanaeth i drigolion a defnyddwyr gwasanaeth sy'n dymuno cyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg. Mynychodd deilydd portffolio iaith Gymraeg y Cyngor, y Cynghorydd Huw Ll Jones Grŵp Monitro Iaith Gymraeg y Gwasanaeth a byddai'r Cynghorydd Arwel Roberts yn bresennol yn y dyfodol agos. Roedd y Grŵp yn monitro cydymffurfiaeth y Gwasanaeth gyda'r cynllun gweithredu "Mwy Na Geiriau".
- Rhoddodd fanylion y broses i sicrhau bod y gwasanaethau a gomisiynir yn ateb anghenion defnyddwyr y gwasanaeth a'r Cyngor, a'r newidiadau i'r broses gwynion a anelwyd at hwyluso datrys cwynion.
- Eglurodd y talwyd taliadau uniongyrchol i gyfrif o ddewis y defnyddiwr gwasanaeth i ganiatáu iddynt dalu am eu gofal. Gall y cyfrif fod yn un swyddfa bost, banc, cymdeithas adeiladu neu gyfrif undeb credyd.
- Roedd Sir Ddinbych yn perfformio'n dda o ran y dangosydd "oedi wrth drosglwyddo gofal". Bu rhai problemau o ran oedi wrth drosglwyddo gofal yn ne'r sir, a oedd yn bennaf oherwydd natur wledig yr ardal. Roedd y problemau'n fwy cyffredin pan oedd angen dau ofalwr yn bresennol ar yr un pryd. Roedd y Cyngor a'r Gwasanaeth Iechyd yn cydweithio'n agos i ddatrys y mater hwn.
- Roedd risgiau sy'n gysylltiedig â chyfuno Gwasanaethau Addysg a Phlant o dan un Pennaeth Gwasanaeth yn cael eu rheoli'n dda, ac roedd aelodau etholedig yn cael eu briffio'n rheolaidd ar gynnydd y prosiect.
- Roedd y posibilrwydd o gau cartrefi gofal preswyl wedi'i nodi fel her yng nghynllun y llynedd, roedd gwaith yn cael ei wneud ar y rhain ar hyn o bryd. Roedd yr Aelod Arweiniol ar gyfer Gofal Cymdeithasol wedi pwysleisio'r angen i aelodau etholedig gyfathrebu'n glir i drigolion y rhesymau tu ôl i'r cynigion i leddfu eu pryderon o ran newidiadau arfaethedig yn y dyfodol i ddarparu gwasanaethau.
- Eglurodd beth oedd yn cael ei ystyried fel "symud" ar gyfer plentyn mewn gofal. Roedd y rhain wedi cynnwys symudiadau cadarnhaol e.e. yn ôl i rieni, rhyddhau o'r ysbyty neu fabwysiadu. O ganlyniad roedd gan yr ystadegau sy'n ymwneud â'r dangosydd perfformiad penodol hwn y potensial o beidio â rhoi'r darlun llawn. Roedd y Cyngor wedi'i ddewis fel un o'r awdurdodau peilot ar gyfer treialu mesurau "canlyniad" ar gyfer plant sy'n derbyn gofal. Diben y cynllun peilot hwn oedd dyfeisio set ddata ystyrlon ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a fyddai'n cynorthwyo awdurdodau i wella gwasanaethau ar eu cyfer.
- Er gwaethaf cofrestru cyfradd uchel o absenoldeb oherwydd salwch o'i gymharu â gwasanaethau eraill y cyngor, roedd perfformiad yr adran Gwasanaethau Cymdeithasol yn gwella ac yn cymharu'n dda yn erbyn cyfartaledd Cymru a'r DU ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol.
- Briffio'r Aelodau am ddatblygiadau sy'n ymwneud â Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) yn dilyn cyhoeddiad diweddar y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol y byddai'r Bwrdd yn destun mesurau arbennig. Byddai'r Aelod Arweiniol ar gyfer Gofal Cymdeithasol yn mynychu cyfarfod y prynhawn hwnnw gyda'r Swyddog Atebol sydd newydd ei benodi ar y Bwrdd, Mr Simon Dean. Byddai Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Prif Weithredwr yn cyfarfod y Swyddog Atebol yr wythnos ganlynol. Roedd Cadeirydd BIPBC wedi rhoi sicrwydd y byddai'n "fusnes fel arfer" ac, o ganlyniad, roedd y Cyngor yn hyderus y byddai cynlluniau eisoes ar y gweill yn cael eu cyflawni. Byddai'r Aelod Arweiniol a swyddogion yn

ceisio sicrwydd bod rhaglenni cyfalaf eisoes wedi eu cyhoeddi h.y. prosiect Ysbyty Brenhinol Alexandra, yn cael eu cyflawni ac y byddai'r ffrydiau ariannu parhaus eraill a phrosiectau a'r Gronfa Gofal Canolraddol yn parhau.

Yn dilyn trafodaeth:

***PENDERFYNODD*** *y Pwyllgor yn amodol ar y sylwadau uchod:*

*(a) I dderbyn yr adroddiad a'i gymeradwyo fel darlun clir o berfformiad yn 2014/15.*
*(b) Bod perfformiad y gwasanaethau wrth ddarparu eu gwasanaethau a mynd i'r afael â heriau a nodwyd ar gyfer 2015 yn cael ei fonitro'n agos drwy broses herio gwasanaeth, gydag unrhyw feysydd pryder yn cael eu codi gyda'r Pwyllgor, a*
*(c) Bod yr Aelod Arweiniol ar gyfer Gofal Cymdeithasol a Chyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol yn hysbysu aelodau'n llawn am y datblygiadau sy'n ymwneud â Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a'u heffaith ar drigolion a gwasanaethau'r Cyngor.*

**7 PERFFORMIAD Y CYNLLUN CORFFORAETHOL - CHWARTER 4 2014/15**

Cyflwynodd y Rheolwr Tîm Cynllunio Strategol y Cynllun Corfforaethol – Adroddiad Chwarter 4 2014/15 (dosbarthwyd eisoes) oedd yn manylu ar y cynnydd a wnaed gyda'r modd y darperir y Cynllun Corfforaethol a chytundebau canlyniadau hyd at ddiwedd Chwarter 4 yn y flwyddyn ariannol 2014/2015. Roedd adroddiadau rheolaidd yn ofyniad monitro angenrheidiol y Cynllun Corfforaethol er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn gweithredu eu dyletswydd i wella.

Yn ystod trafodaeth codwyd y pwyntiau canlynol:

(i) Ni achoswyd unrhyw niwed i Bont y Ddraig yn y Rhyl ar ôl i gar gael ei yrru drosti. Roedd archwiliad strwythurol wedi'i gynnal i asesu unrhyw ddifrod.
(ii) Byddai disgwyl i'r Rhaglen Moderneiddio Addysg gyflawni gostyngiad yn y nifer o ystafelloedd dosbarth symudol a ddefnyddir yn y sector cynradd ac uwchradd. Byddai cynnydd o ran cyflawni'r rhaglen a gwella presenoldeb yn yr ysgol uwchradd yn cael ei fonitro drwy gyfrwng y broses herio gwasanaeth.

***PENDERFYNWYD*** *yn amodol ar yr uchod, i dderbyn yr adroddiad, a bod yr Adroddiad Perfformiad Blynyddol yn cael ei ddefnyddio i nodi meysydd ar gyfer archwilio manwl er mwyn gwella canlyniadau i ddinasyddion a hwyluso'r Cyngor i gyflawni ei Gynllun Corfforaethol.*

**8 ADRODDIAD EICH LLAIS – CHWARTER 4 2014/15**

Cytunwyd y byddai'r Adroddiad Eich Llais– Ch4 2014/15 yn cael ei ohirio tan y cyfarfod Pwyllgor Archwilio Perfformiad ar 16 Gorffennaf 2015.

***PENDERFYNWYD*** *y byddai'r Adroddiad "Eich Llais" – Ch4 2014/15 yn cael ei ohirio tan y cyfarfod Pwyllgor Archwilio Perfformiad ar 16 Gorffennaf 2015.*

**9 RHAGLEN WAITH ARCHWILIO**

Roedd copi o adroddiad gan y Cydlynydd Archwilio, a oedd yn gofyn i'r Pwyllgor adolygu a chytuno ar ei Raglen Gwaith i'r Dyfodol ac yn rhoi diweddariad ar faterion perthnasol, wedi ei ddosbarthu gyda'r papurau ar gyfer y cyfarfod.

***PENDERFYNWYD -*** *cymeradwyo'r Rhaglen Waith fel y nodwyd yn Atodiad 1 yr adroddiad.*

**10 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR PWYLLGOR**

Dim.

Daeth y cyfarfod i ben am 2.30pm.